**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**

**y Grŵp Trawsbleidiol ar Wyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg**

Cyfarfod am 6.30pm, ddydd Mercher 2 Tachwedd 2016, Ystafell Gynadledda 21, Tŷ Hywel

# Cofnodion

## Yn bresennol

David Rees AC (cadeirydd), Simon Thomas AC, Mark Isherwood AC, Huw Irranca-Davies AC, Suzy Davies AC a Jeremy Miles AC.
Dr Sarah Main (Cyfarwyddwr Gweithredol, yr Ymgyrch dros Wyddoniaeth a Pheirianneg), Dr Stephen Benn (y Gymdeithas Fioleg Frenhinol), yr Athro Ian Wells (Prifysgol y Drindod Dewi Sant), yr Athro Mike Edmunds (y Gymdeithas Seryddol Frenhinol), Yr Athro Peter Halligan (Cymdeithas Ddysgedig Cymru), Dave Jones (y Gymdeithas Ddaeareg), Dr David Cunnah (y Sefydliad Ffiseg), yr Athro Keith Smith (y Gymdeithas Gemeg Frenhinol), Keith Jones (y Sefydliad Peirianneg Sifil), Cerian Angharad (y Gymdeithas Addysg Gwyddoniaeth), Dr Rhobert Lewis (Coleg y Cymoedd), Adam Wadding, Andrew Mackenzie (y Gymdeithas Ffisioleg), Helen Francis (CBAC), Dave Harwood (y Sefydliad Peirianneg Fecanyddol), Liam Thomas (y Gymdeithas Gemeg Frenhinol/Prifysgol Caerdydd), Dr Robert Hoyle (Swyddfa'r Prif Gynghorydd Gwyddonol), Owain Davies (Techniquest), Dr Rob Janes (y Brifysgol Agored), Rhys Phillips (y Sefydliad Peirianneg a Thechnoleg), a Leigh Jeffes (Cydlynydd y Grŵp Trawsbleidiol).

## Croeso

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, gan gynnwys y siaradwr gwadd, Dr Sarah Main, Cyfarwyddwr Gweithredol yr Ymgyrch dros Wyddoniaeth a Pheirianneg, ac Andrew Mackenzie, a oedd yn cynrychioli'r Gymdeithas Ffisioleg, a ddaeth yn aelod o'r Grŵp Trawsbleidiol y noswaith honno.

## Ethol Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Wyddoniaeth a Thechnoleg

Etholwyd David Rees AC.

1. **Ethol Is-gadeiryddion y Grŵp Trawsbleidiol ar Wyddoniaeth a Thechnoleg**

Etholwyd Nick Ramsay AC a Simon Thomas AC.

2. **Ethol Ysgrifennydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Wyddoniaeth a Thechnoleg**

Roedd y Gymdeithas Gemeg Frenhinol yn fodlon darparu gwasanaethau ysgrifenyddiaeth ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, ac etholwyd Leigh Jeffes.

3. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Nick Ramsay AC, Julie James AC, Dr Dai Lloyd AC, David Melding AC, yr Athro Julie Williams, yr Athro Faron Moller, Dr Geertje van Keulen, Dr Lucy Meredith a Dr Paul Hutchings.

4. **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf 2016**

Roedd y cofnodion wedi cael eu dosbarthu.

5. **Materion yn codi**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi

6. **Y Prif Gynghorydd Gwyddonol**

Rhoddodd Dr Robert Hoyle y wybodaeth ddiweddaraf am Sêr Cymru ar ran yr Athro Julie Williams.

7. **Pynciau ar gyfer cyfarfodydd yn 2017**

Bydd y cyfarfod ym mis Mawrth yn cynnwys sgwrs gan yr Athro Ian Wells, Prifysgol y Drindod Dewi Sant, a'r Athro Wendy Dearing o Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru.

Gofynnodd y Cadeirydd i bobl anfon awgrymiadau ar gyfer pynciau cyfarfodydd yn y dyfodol at Leigh.

8. **Cymdeithasau gwyddonol a chyrff proffesiynol - y wybodaeth ddiweddaraf**

Gwnaeth cynrychiolwyr o'r cymdeithasau gwyddonol roi gwybod am eu newyddion a'u digwyddiadau presennol a'r hyn sydd ar y gweill ar gyfer y dyfodol agos.

9. **Cyflwyniad: Dr Sarah Main, Cyfarwyddwr Gweithredol, yr Ymgyrch dros Wyddoniaeth a Pheirianneg**

Rhoddodd Dr Main gyflwyniad ynglŷn â sut i sicrhau y bydd gwyddoniaeth a pheirianneg yn ffynnu.

Diolchodd y Cadeirydd i Sarah am ei chyflwyniad, a gofynnodd am gwestiynau.

10. **Unrhyw fater arall**

Ni chodwyd unrhyw fater arall.

11. **Dyddiadau cyfarfodydd 2017**

Cadarnhawyd y dyddiadau a ganlyn:

- **Dydd Mawrth 7 Mawrth -** Tŷ Hywel, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 6.30pm
- **Dydd Mawrth 4 Gorffennaf -** Tŷ Hywel, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 6.30pm
- **Dydd Mercher 1 Tachwedd -** Tŷ Hywel, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 6.30pm

12. **Dod â'r cyfarfod i ben**

Gan nad oedd unrhyw fater arall, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 7.45pm.